

# Aber a'r Gymraeg

# Croeso i Aber!

## Dysgu a byw mewn amgylchedd heb ei ail

**Mae'r gymuned Gymraeg fyrlymus, bywiog a chyfeillgar ger y lli yn estyn croeso mawr i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru a'r tu hwnt. Mae Aberystwyth (neu Aber i'r rhai sy'n ei hadnabod yn dda) yn dref fach a chanddi galon fawr, ac oherwydd hynny mae'n apelio at bobl ifanc o bedwar ban byd.**

Rydym yn falch iawn o'n cymuned gyfeillgar, yn y Brifysgol a'r dref. Mae Aberystwyth yn fan unigryw - yn gymuned eang gydag amrywiaeth fawr o bobl, diwylliannau a chredoau. Cewch gyfle i roi cynnig ar bethau newydd, gwneud ffrindiau newydd ac, yn bwysicaf oll, i fod yn chi'ch hun.

Dyma'r lle delfrydol i fwynhau cydbwysedd rhwng astudio, mwynhau ac ehangu gorwelion. Dewch i Brifysgol Aberystwyth i weld drosoch eich hun ac i fwynhau popeth sydd gan Aber i'w gynnig.



## Gair gan yr Is-Ganghellor

**Rwyf mor falch eich bod yn ystyried astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fel myfyriwr Cymraeg eich iaith, mae nifer o resymau pam y dylech ddewis astudio yma.**

Mae gan y Brifysgol hanes balch o ddarparu addysg Gymraeg ac, ers dyddiau cynnar y Brifysgol, mae ein myfyrwyr Cymraeg wrth galon hunaniaeth Aberystwyth fel sefydliad sy'n hybu'r Gymraeg a'i diwylliant.

Hyd heddiw, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i'n myfyrwyr fyw ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn amgylchedd lle y bydd gwasanaethau a chymorth ar gael iddynt yn Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i feithrin talent ein myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a darparu profiadau addysgiadol, galwedigaethol a chymdeithasol iddynt a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ymgymryd â phrofiad gwaith ym Mhrydain a thramor, gyda sefydliadau sy'n buddsoddi yn nyfodol Cymru, a rhai sy'n ehangu ledled y byd. Ac mae ein myfyrwyr uwchraddedig Cymraeg eu hiaith yn cyfrannu at ymchwil sy'n arwain y byd, gan gael effaith wirioneddol ar faterion byd-eang mewn technoleg, amaethyddiaeth a'r dyniaethau.

Wrth ddewis astudio yn Aberystwyth, nid yn unig y mae ein myfyrwyr Cymraeg yn buddsoddi yn eu datblygiad eu hunain, ond maent hefyd yn sicrhau bod y diwylliant Cymraeg cyfoethog a bywiog sydd gennym yn Aberystwyth yn parhau i ffynnu, a bod y Brifysgol yn parhau i fod yn lle arbennig i fyfyrwyr Cymraeg lle y gallant gyrraedd eu potensial a gwneud eu marc ar y byd.



**Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor**

## Gair gan y Dirprwy Is-Ganghellor

**Fel myfyriwr Cymraeg eich iaith, gallwch fod yn sicr bod Prifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad heb ei ail i fyfyrwyr.**

Yma, gall myfyrwyr Cymraeg ddewis byw ac astudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â chynnig ystod o gyrsiau a ddysgir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r Gymraeg, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau, cefnogaeth a phrofiadau cymdeithasol yn y Gymraeg sy'n adlewyrchu'n cymuned o fyfyrwyr a staff dwyieithog.

Mae Neuadd Pantycelyn ar ei newydd wedd yn cynnig llety en-suite modern yn benodol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â mannau lle y gall myfyrwyr gymdeithasu, astudio a bwyta gyda'i gilydd. Mae Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) hefyd wrth wraidd bywyd ein myfyrwyr Cymraeg, yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ac yn darparu cyfleoedd i'n myfyrwyr Cymraeg eu hiaith allu cymryd rhan yn ffurfiol ym mywyd y Brifysgol drwy nifer o bwyllgorau allweddol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn codi llais dros ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg uwch, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu profiadau a fydd yn gwella eich sgiliau ac yn eich helpu i sefyll ar wahân yn y farchnad swyddi ar ôl graddio. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau ar draws y byd, ac mae ein cynlluniau astudio a gweithio dramor yn rhoi llwyfan i chi gyfoethogi eich profiadau eich hun, a chyflwyno doniau a chyfleoedd y Gymru ddwyieithog i'r byd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl darllen y daflen hon am astudio yn Aberystwyth, mae croeso i chi gysylltu â ni. Rwy'n gobeithio y byddwch yn dewis astudio gyda ni, a gwn na chewch eich siomi gan y profiadau y byddwch yn eu darganfod ym Mhrifysgol Aberystwyth.



**Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor: Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr**

# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

## Graddau a Modiwlau

**Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth rydym yn cynnig llawer o gyfleoedd i astudio trwy'r Gymraeg, ac mae ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith yr ehangaf yng Nghymru.**

Rydym yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n rhugl yn ogystal â'r rhai sy'n llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae'r ddarpariaeth israddedig yn amrywio o gyrsiau sy'n cynnig ambell fodiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, i eraill lle mae modd astudio'r cwrs cyflawn yn Gymraeg. Mae'n bosib i chi astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg hyd yn oed os ydych yn astudio yn Saesneg yn bennaf.

### Dosbarthiadau bach

Mae ymchwil yn dangos bod myfyrwyr sy'n dysgu mewn dosbarthiadau bach yn tueddu i ennill marciau uchel ac yn cael cyfle i ymuno â chymuned fywiog, gyfeillgar o fyfyrwyr eraill sy'n astudio trwy'r Gymraeg.

### Gwarant o diwtor personol Cymraeg

Efallai eich fod yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy cyfforddus yn Gymraeg, a bod y gallu i sgwrsio yn Gymraeg gyda dy diwtor yn bwysig ichi.

### Cefnogaeth ariannol

Mae ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg. Hefyd, bydd myfyrwyr sy'n astudio dros bum credyd y flwyddyn drwy'r Gymraeg yn derbyn Bwrsariaeth Astudio drwy'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth yn awtomatig (heb gynnwys myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg fel pwnc).

### Dulliau dysgu arloesol

Mae modiwlau cyfrwng Cymraeg yn defnyddio nifer o dechnegau blaengar, megis cipio darlithoedd, deunyddiau dysgu amlgyfrwng, fideo-gynadledda, sesiynau preswyl ag ymarferwyr proffesiynol, ac adnoddau ar-lein sy'n cefnogi'r dulliau dysgu mwy traddodiadol.

### Datblygu geirfa a sgiliau trawsieithu

Tra'n astudio trwy'r Gymraeg, bydd angen ichi wneud defnydd o ddeunyddiau dysgu yn Saesneg (ac ieithoedd eraill o bosib). Mae'r broses o drawsieithu - defnyddio gwybodaeth a geir mewn un iaith mewn iaith arall - wrth ysgrifennu nodiadau ac asesiadau yn dy gynorthwyo i ddeall a dehongli deunydd darllen yn well. Mae hyn hefyd yn gyfle rhagorol i ddatblygu geirfa bwnc-benodol a fydd o fantais ichi yn y gweithle.

**Mae'r ddarpariaeth yn hyblyg. Gall myfyrwyr ddewis astudio cymaint neu gyn lleied o'r modiwlau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael iddynt ag y dymunant.**

Pynciau sy'n cynnig cyfran uchel o addysgu cyfrwng Cymraeg:

- Cymraeg
- Hanes
- Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Addysg ac Astudiaethau Plentyndod
- Amaethyddiaeth
- Y Gyfraith
- Troseddeg
- Mathemateg
- Daearyddiaeth
- Busnes a Rheolaeth

Mae llawer o'n pynciau eraill hefyd yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau cyfrwng Cymraeg:

- Ffiseg
- Y Biowyddorau
- Biocemeg a Geneteg
- Cyfrifiadureg
- Gwyddorau Anifeiliad a Gwyddor Ddyfrol
- Gwyddorau Ecolegol
- Cyfrifeg a Chyllid
- Economeg
- Engineering
- Drama a Theatr
- Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau
- Marchnata
- Nyrsio
- Seicoleg
- Cymdeithaseg
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Astudiaethau Milfeddygol

Cymerwch olwg ar ein rhestr o gyrsiau i weld canran pob cwrs sydd ar gael i'w astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd:

**aber.ac.uk/darpariaeth-gymraeg**

# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

## Cyflogadwyedd

Mae'r gallu i gyfathrebu'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn sgil fanteisiol iawn yn y gweithle, ac mae astudio trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog yn datblygu'r sgiliau hyn ac yn rhoi mantais ichi yn y farchnad swyddi, nid yn unig dros ymgeiswyr di-Gymraeg ond hefyd ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg ond sydd heb ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu i lefel raddedig.

**Mae 97.3% o'r graddedigion a fu'n astudio rhan o'u cwrs trwy'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn swydd neu addysg bellach chwe mis ar ôl graddio, o'i gymharu â 91.5% nad oedd wedi astudio trwy'r Gymraeg.**

(Graduate Outcomes Data 2024)

### Pam mae sgiliau dwyieithog yn bwysig i gyflogwyr?

1. Yn y sector cyhoeddus, mae gofyn statudol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
2. Gan fod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth Cymraeg yn y sector cyhoeddus, maent yn disgwyl yr un lefel o wasanaeth yn y sector preifat.
3. Mae cwsmeriaid/cleientiaid yn gwerthfawrogi cael gwasanaeth yn Gymraeg.
4. Mae dangos parch at gwsmeriaid/cleientiaid a'r gymuned ehangach drwy ddarparu profiad Cymreig yn bwysig i enw da'r busnes neu wasanaeth.
5. Gellir elwa trwy ddenu cwsmeriaid/cleientiaid newydd a'u cadw.
6. Mae hyrwyddo'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle yn adlewyrchu gwerthoedd cymdeithasol o amgylch diwylliant, hunaniaeth a chydraddoldeb.



## Carwyn Eckley

**Newyddiadurwr**

Roedd astudio Cymraeg Proffesiynol yn sail gadarn iawn wrth imi chwilio am swydd fel newyddiadurwr. Yn ystod y cwrs, fe gawsom ni brofiad o argraffu cylchgrawn, ysgrifennu datganiadau i'r wasg a pharatoi copi - mae'r rhain oll yn sgiliau ymarferol sydd hefyd yn gwneud defnydd o'ch Cymraeg, ac maen nhw'n sgiliau ydw i'n dal i ddibynnu arnyn nhw heddiw yn fy ngwaith bob dydd.

Heb swnio fel cliche, mae medru Cymraeg cywir yn fantais fawr wrth chwilio am waith. Yn fy mhrofiad i, mae cyflogwyr wastad yn chwilio am rywun y gallan nhw ymddiried ynddyn nhw o ran cywirdeb iaith.

Mae Aberystwyth yn lle perffaith i fod yn fyfyriwr. Mae'r tair blynedd dreuliais i ym Mhantycelyn ac yna yn y dref ei hun ymysg y cyfnodau hapusaf yn fy mywyd. Manteisiwch ar bob cyfle yn ystod eich cyfnod yn Aber - wnewch chi ddim ond difaru y pethau na gawsoch chi'r cyfle i'w gwneud. Mae hefyd yn beth da eich rhoi chi'ch hunain mewn sefyllfaoedd nad ydych chi'n gwbl gyfforddus ynddyn nhw, weithiau (fel dechrau gwersi cynganeddu!).



## Emily Bennett

**Bargyfreithiwr**

Astudiais y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth ac fe ges i brofiad ardderchog o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yna ddarpariaeth Cymraeg eang yn yr adran felly roedd nifer o fodiwlau yn cael eu dysgu yn gwbl drwy'r Gymraeg. O ganlyniad, roeddwn i mewn grwpiau llai ar gyfer nifer o ddarlithoedd a seminarau, a rhoddodd hyn y cyfle imi ryngweithio yn fwy gyda fy nghyd-fyfyrwyr a darlithwyr. Derbyniais Brif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am astudio'n rhannol drwy'r Gymraeg, a chyfrannodd hyn tuag at brynu llyfrau a nwyddau a hefyd lleihau pwysau ariannol er mwyn fy ngalluogi i ganolbwyntio ar fy astudiaethau.

Rwyf bellach wedi hyfforddi fel bargyfreithiwr ac yn ymarfer yn y llysoedd teuluol, troseddol a sifil. Mae astudio trwy'r Gymraeg wedi fy helpu i gyrraedd fy ngyrfa ddelfrydol gan fy mod yn gallu trafod problemau cyfreithiol cymhleth yn nwy iaith gyfreithiol Cymru, a hefyd siarad gyda chleientiaid yn yr iaith maent y fwyaf cyfforddus ynddi. Rwyf bellach yn denant yn y siambr sydd gyda'r mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae astudio trwy'r Gymraeg yn sicr wedi fy helpu i gyrraedd lle rwyf nawr yn fy ngyrfa.

# Y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Fel myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, cewch ymuno â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – sefydliad cenedlaethol sy'n chwarae rhan allweddol mewn cynllunio, cynnal a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion.**

Mae cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Cewch ddod yn aelod o'r Coleg hyd yn oed cyn dechrau yn y brifysgol. Un fantais o wneud hynny yw i gael gafael ar y rhif aelodaeth y bydd ei angen arnoch chi wrth wneud cais am un o'r ysgoloriaethau.



## Ysgoloriaethau

**> Prif Ysgoloriaeth - £1,000 y flwyddyn**

Mae'r cynllun Prif Ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 240 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg - sef o leiaf 80 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn.

**> Ysgoloriaethau Cymhelliant - £500 y flwyddyn**

Mae'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 120 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pwnc cymwys, o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn.

## Sut mae gwneud cais?

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

**www.colegcymraeg.ac.uk/cy**

### Manteision bod yn aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Fel aelod, cewch wybodaeth o bob math, o'r cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, i'r newyddion diweddaraf am ysgoloriaethau a gweithgareddau academaidd a chymdeithasol y Gangen. Byddwch yn dod yn aelod o gymuned y Coleg a chymdeithas Gymraeg fywiog Aberystwyth.

Cewch hefyd gymryd gwersi i wella eich Cymraeg os ydych chi angen magu ychydig o hyder.

### Y Dystysgrif Sgiliau Iaith

Cewch ddewis sefyll Y Dystysgrif Sgiliau Iaith (TSI) - cymhwyster pwysig sy'n galluogi myfyrwyr i ddangos tystiolaeth o'u sgiliau Cymraeg ymarferol a'u gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd tiwtoriaid sgiliau iaith yn darparu sesiynau dewisol i'ch helpu i baratoi at y Dystysgrif trwy fireinio eich sgiliau cyfathrebu proffesiynol yn Gymraeg.

### Adnoddau cyfrwng Cymraeg

Mae Porth Adnoddau'r Coleg Cymraeg yn cynnwys ystod eang o adnoddau i hwyluso astudio trwy'r Gymraeg – o archif S4C i werslyfrau mewn pynciau mor amrywiol â Mathemateg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Gyfraith, i Wicis ar bynciau megis Daearyddiaeth, Llenyddiaeth a Theatr. Mae hefyd yn cynnwys geiriadur Termau Addysg Uwch a'r cyfnodolyn aml-ddisgyblaethol cyfrwng Cymraeg sy'n cyhoeddi ymchwil blaengar o Gymru a thu hwnt.



### Cefnogaeth i astudio trwy'r Gymraeg

Mae'r tiwtoriaid sgiliau iaith a'r tiwtoriaid sgiliau academaidd ar gael i'ch cynorthwyo gydag agweddau gwahanol ar astudio yn Gymraeg, gan ddarparu sesiynau unigol, grŵp a rhai o fewn modiwlau ar sgiliau iaith a sgiliau academaidd dwyieithog, megis defnyddio deunydd Saesneg wrth ysgrifennu yn Gymraeg, termau ac ysgrifennu academaidd. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu adnoddau cyfrifiadurol i'ch helpu i astudio yn Gymraeg, megis gwirydd sillafu a gramadeg cyfrwng Cymraeg, rhaglenni Office a rhyngwynebau Cymraeg.

### Gwella eich Cymraeg

Pa un a ydych yn iaith gyntaf neu'n ail iaith, mae'r Brifysgol yn cynnig amryw o gyfleoedd ichi i wella'ch Cymraeg. Ynghyd â'r sesiynau cefnogol a ddarperir gan y tiwtoriaid sgiliau iaith, mae nifer o fodiwlau sy'n cynnwys sesiynau gloywi iaith. Mae hefyd nifer o fodiwlau gloywi iaith yn Adran y Gymraeg wedi'u teilwra ar gyfer siaradwyr ail iaith neu iaith gyntaf. Yn ogystal, mae gwersi Dysgu Cymraeg ar gael i siaradwyr rhugl sydd eisiau gwella eu sgiliau ysgrifennu a chyflwyno.

# Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA)

**Os ydych am fyw ac astudio yn Gymraeg yma yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o'r gymuned glòs sydd yma heb ymuno ag UMCA neu'r Geltaidd, neu'r ddau!**

## Croeso gan Lywydd UMCA

Haia, Nanw dw i a fi ydi Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth ar gyfer 2025/26. Gyda dros i 150 o aelodau, UMCA yw sail y gymuned Gymraeg ar hyd y Brifysgol a'm swydd i ydy bod yn lais i fyfyrwyr Cymraeg – boed hynny'n lais ar gyfer eich profiad academaidd, eich lles neu wrth ymgyrchu.

Mae ein calendr ni yn llawn amrywiaeth o ddigwyddiadau – tripiau gwahanol, cyfleoedd i chwarae yn y timau rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd, nosweithiau gwisg ffansi Cymraeg o'r enw Sŵn a digwyddiadau Rhyng-golegol lle bydd myfyrwyr holl brifysgolion Cymru yn dod at ei gilydd.

Mae eich cyfnod fel myfyriwr wir yn gwibio heibio felly gwnewch y mwyaf o'ch cyfnod gwerthfawr yn Aber! Mae UMCA a'r Undeb ehangach yma i'ch cefnogi ar hyd eich cyfnod yn y Coleg ger y Lli. Mae gen i swyddfeydd hefyd yn adeilad Undeb Aber ac yn Neuadd Pantycelyn, felly cofiwch alw heibio!

Edrychwn ymlaen felly at eich croesawu chi i gymuned UMCA ac i'r Brifysgol!




## Nanw Maelor

**Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymraeg UMAber**

**umca@aber.ac.uk**


**UMCA yw'r undeb gyntaf o'i bath yng Nghymru, ac mae ganddi brofiad helaeth o ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg nid yn unig yma'n Aberystwyth, ond hefyd yn genedlaethol drwy gymryd rhan blaenllaw yn yr ymgyrch i sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er enghraifft. Erbyn heddiw, mae'n fudiad dylanwadol iawn sydd â llais a chynrychiolaeth ar rai o brif bwyllgorau'r Brifysgol.**

### Gweithgareddau

Mae UMCA yn cefnogi nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill poblogaidd megis y Geltaidd (prif gymdeithas chwaraeon Gymraeg Prifysgol Aberystwyth), Plaid Cymru Ifanc, ac Aelwyd Pantycelyn i'r rheiny ohonoch sy'n mwynhau canu neu lefaru. Trefnir nifer o weithgareddau gan UMCA ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac mae Llywydd UMCA yn cydweithio'n agos â'r Coleg er mwyn sicrhau bod gennym amryw o weithgareddau sydd at ddant pawb.

### UMCA a'r Gymraeg

Nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y mae UMCA. Cynigia UMCA sesiwn Paned a Sgwrs gan Swyddogion Ailiaith UMCA ym Mhantycelyn ar gyfer unigolion a hoffai ymarfer eu Cymraeg a chael cyfle i sgwrsio yn Gymraeg.

### Llais y myfyrwyr

Mae UMCA wedi bod yn gwarchod hawliau a buddiannau myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol ers 1973. Mae gweithgareddau'r Undeb yn amrywio o drefnu adloniant a digwyddiadau i ymgyrchu dros faterion addysgiadol, cymdeithasol a ieithyddol yn y Brifysgol a thu hwnt.

### Cefnogaeth

Byddwch eisiau gwneud yn fawr o'ch amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn academaidd, yn gymdeithasol ac ym mhob ffordd. Mi fyddwch wrth eich bodd yma, ond os fydd unrhyw beth yn eich poeni chi, bydd dim rhaid ichi fynd yn bell. Neuadd Pantycelyn yw cartref yr Undeb, a byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes a phob cymorth.

### Llwyddiannau Eisteddfodol

Bob blwyddyn mae myfyrwyr o Aberystwyth yn amlwg ar lwyfan eisteddfodau. Mae ein myfyrwyr yn cystadlu fel unigolion neu'n grwpiau a chorau, mewn meysydd fel llenyddiaeth, canu, dawnsio a pherfformio. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gystadlu yn erbyn myfyrwyr o brifysgolion eraill yn yr Eisteddfod Ryng-golegol, sy'n benwythnos llawn hwyl.

### Wythnos Groeso

Pan gyrhaeddwch y Brifysgol ym mis Medi, cewch brofi Wythnos Groeso - wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu a drefnir gan UMCA. Bydd myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar rai o'r gweithgareddau, sy'n golygu y byddwch yn dod i adnabod trawsdoriad eang o fyfyrwyr erbyn diwedd yr wythnos gyntaf! Mae digwyddiadau UMCA yn ystod yr Wythnos Groeso yn cynnwys noson garioci, gig gyda rhai o fandiau gorau'r Sin Roc Gymraeg a noson gwis yn nhafarn Yr Hen Lew Du – hafan y gymuned Gymraeg yn Aberystwyth.

# Cymdeithasau UMCA

## Aelwyd Pantycelyn

Dyma un o gymdeithasau mwyaf adnabyddus UMCA – cymdeithas sy'n cwrdd unwaith yr wythnos i ganu, llefaru a pherfformio. Mae'n ffordd wych o ddod i adnabod pobl eraill sy'n mwynhau perfformio, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 'na rywbeth at ddant pawb! Pigion yr hwyl yw cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, y Cyngerdd Nadolig blynyddol, a llu o gyngherddau eraill. Os yw perfformio yn eich gwaed, Aelwyd Panty yw eich lle chi.

## Y Geltaidd

Yn y bôn, cymdeithas chwaraeon Gymraeg yw'r Geltaidd, a chymdeithas Prifysgol hynaf Cymru. Os ydych chi'n hoffi chwaraeon ac eisiau parhau i chwarae tra yn y brifysgol, cewch ddigon o gyfle i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae gan y Geltaidd dimau Rygbi Bechgyn a Merched, Pêl-droed Bechgyn a Merched, a Phêl-rwyd. Ac os yw cefnogi tîm rygbi Cymru yn bwysig i chi, fyddwch chi ddim eisiau methu taith fwyaf y flwyddyn sef teithio i un o'r gemau ym mhencampwriaeth y chwe gwlad. C'mon Cymru!










# Prif ddigwyddiadau UMCA

**Mae UMCA yn trefnu pob math o weithgareddau adloniant Cymraeg trwy gydol y flwyddyn. Dyma'r prif rai:**

## Medi / Hydref

### Wythnos Groeso - mis Medi

Wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu i'ch croesawu i'r Brifysgol. Bydd myfyrwyr newydd yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr o un o'r blynyddoedd uwch ac yn dod i nabod trawsdoriad o bobl erbyn diwedd yr wythnos gyntaf!

### Trip Tregaron – dechrau Hydref

Mae Trip Tregaron UMCA yn drip a chynhelir yn flynyddol ac yn gyfle gwych i ymweld â'r dref.

## Tachwedd

### Y Ddawns Ryng-golegol – mis Tachwedd

Uchafbwynt y flwyddyn i unrhyw fyfyriwr Cymraeg. Daw myfyrwyr o hyd a lled Cymru a thu hwnt yn un haid i Aberystwyth i fwynhau noson wych o gerddoriaeth ac un o benwythnosau gorau'r sîn roc Gymraeg.

## Ionawr / Chwefror

### Ail Wythnos y Glas – mis Ionawr

Cyfle i fwynhau wythnos lawn digwyddiadau ar ôl y cyfnod arholiadau.

### Eisteddfod Ryng-golegol – tua diwedd Chwefror

Mae'r Eisteddfod yn teithio rhwng prifysgolion Cymru - cyfle i gael cystadlu cyfeillgar ond yn bwysicaf oll i wneud ffrindiau newydd. Ceir hefyd dwrnament chwaraeon ar y Dydd Gwener cyn yr Eisteddfod.

## Mawrth / Ebrill

### Wythnos RAG – mis Mawrth/ Ebrill

Wythnos o godi arian at ddwy elusen trwy ddigwyddiadau amrywiol, megis golchi ceir ym Mhantycelyn, Mabolgampau, Taith Ddirgel, Sŵn a thwrnament darts.

## Mai / Mehefin

### Aber 7s – mis Mai

Croesawir timau rygbi o bob cwr o Gymru i dwrnament rygbi Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn flynyddol ar benwythnos Gŵyl y Banc cyntaf mis Mai.

### Cystadlu yn yr Urdd – mis Mai

Aelwyd Pantycelyn yn teithio i Eisteddfod yr Urdd i gystadlu yn erbyn aelwydydd eraill Cymru.

### Wythnos Nefi Blŵ – mis Mehefin

Wythnos i ddathlu diwedd arholiadau, ffarwelio â ffrindiau a chloi blwyddyn UMCA. Trefnir llu o ddigwyddiadau hwyliog i sicrhau eich bod yn gorffen y flwyddyn mewn steil, megis Trip Traeth i Aberaeron a Chei Newydd, a Sŵn Swper Olaf.

## Yn ystod y flwyddyn

### Sŵn - nos Iau olaf bob mis

Sefydlwyd yn 2003 gan gyn-lywydd UMCA a'r Undeb Myfyrwyr ehangach, Meilyr Emrys (Mei). Nosweithiau sy'n dathlu cerddoriaeth Gymraeg, o'r hen glasuron i'r gerddoriaeth ddiweddaraf, ac yn creu atgofion, a hynny drwy'r nos! Ceir thema gwisg ffansi i bob noson, gyda chyfle i ennill mynediad i noson Sŵn am ddim i'r criw sydd â'r wisg ffansi orau!







# Pantycelyn

## Neuadd i fyfyrwyr Cymraeg

### Ystafelloedd sengl en-suite

Bydd Pantycelyn yn costio oddeutu £205 yr wythnos, gyda chyfanswm y cytundeb preswylydd yn 33 wythnos. Mae'r ffi am y llety yn cynnwys yr holl filiau, cysylltiad rhyngrwyd (gwifredig a WiFi), yswiriant cynnwys personol ac aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon.

Fel neuadd arlwyol, gall myfyrwyr gael brecwast a phryd gyda'r nos yn 'Y Ffreutur' ar y llawr gwaelod o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, gall preswylwyr ddefnyddio'r lwfans arlwyo o tua £60 yr wythnos ar unrhyw adeg, ac yn unrhyw fan arlwyo ar draws y Brifysgol.

Bydd hyn yn rhoi'r rhyddid ichi i ddefnyddio'r lwfans arlwyo yn y ffordd sy'n gweddu orau i chi. Bydd Pantycelyn hefyd yn cynnwys ceginau bach gyda'r cyfarpar canlynol:

- Popty micro-don
- Tostiwr
- Oergell/Rhewgell
- Sinc







# Addewidion Aber

**Addewidion Aber yw ymrwymiad Prifysgol Aberystwyth i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Dyma'r cynllun mwyaf cynhwysfawr o'i fath gan unrhyw brifysgol yng Nghymru.**

Mae'r cynllun strategaeth yn rhestru mewn un ddogfen flaenoriaethau'r Brifysgol ar gyfer ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yn atgyfnerthu ymrwymiad Aberystwyth i hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r addewidion yn nodi'r hyn sy'n arbennig am Aberystwyth a sut mae'r Brifysgol yn cynnig profiad Cymraeg cyflawn:

- **Llety clyd:** lle i fyw yn Gymraeg
- **Arian yn eich poced:** am ddilyn rhwng 5 a 40 credyd yn Gymraeg
- **Rhoi dy iaith ar waith:** cefnogaeth i ddysgu a gwella'ch Cymraeg
- **Aelodaeth o UMCA am ddim:** agor y drws ar gymdeithas Gymraeg
- **Help!** Tiwtor academaidd i'ch helpu trwy gyfrwng y Gymraeg
- **Gofod i flaguro:** gofod i gymdeithasu yn Gymraeg
- **Profiad Gwaith:** gyda chwmnïau Cymraeg
- **Amryw-iaith:** mae cyrsiau o bob math ar draws y Brifysgol yn cynnig modiwlau cyfrwng Cymraeg



Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth, Cymru SY23 3BF

+44 (0)1970 62 2650

ymholiadau@aber.ac.uk




Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%